Site Stakeholder Group

Minutes of the Wylfa Site Stakeholder Group held on Thursday 4 February 2016 in the Eleth/Eilian Rooms

Present:

Thomas Conway	Wylfa Retirees Association
Liz Davies	Programme Delivery Manager, Energy Island
Roger Dobson	Resident
Cllr J Dobson	Llanbadrig Community Council
Cllr J Griffith	IOACC Talybolion Ward
Cllr KP Hughes	IOACC Talybolion Ward
Cllr William T Hughes	IOACC Twrcelyn Ward
Cllr Elfed Jones	Llanbadrig Community Council
Cllr Aled M Jones	IOACC Twrcelyn Ward (Chair)
Cllr J H Jones	Mechell Community Council
Mr R A Jones	Farmers Union of Wales
Mrs Jean Jones	Ysgol Syr Thomas Jones
Tom Jones	Cylch y Garn Community Council
Mr H Jordan	Federation of Small Businesses (Glan Rhos Garage)
Lowri Joyce	Regional Stakeholder Relations Manager Hitachi Europe Ltd
Stuart Law	Site Director Magnox Wylfa
Myrddin Owens	Amlwch Town Council
Tim Poole	CPRW
Cllr G W Roberts	Amlwch Town Council (Vice Chair)
A Rowlands	IOACC
Aled Williams	Waste Manager
Deborah Ward	NDA
Karin White	Magnox SSG Secretariat
Michelle Humphreys	Magnox Wylfa
Paul Wright	Natural Resources Wales

1. Welcome and Apologies

The Chair welcomed everyone to the meeting. In particular, he welcomed Cllr Myrddin Owens from Amlwch Town Council (who has taken over from Cllr Val Roberts), Deborah Ward (NDA), Paul Wright (Natural Resources Wales), Liz Davies (Programme Delivery Manager for Energy Island), Frances Taylor (office of Rhun ap Iorwerth) and Lowri Joyce (who was congratulated on her appointment to Hitachi Europe Ltd).

Apologies for absence had been received from the following:

Nick Blackburn	Office for Nuclear Regulation
John Idris Jones	Magnox
Richard Foxhall	Horizon Nuclear Power

Helen and Robin Grove-White – Working on the “Power in the Land” exhibition which is opening at Newtown on Saturday – the Wylfa History section is showing at the Oriel Llangefni until July 2016

Mel O Hara	Waste Sub Group Member
Gordon Warren	Member of the Public
Gwyn Hughes	Emergency Planning Officer North Wales Councils
Rhun ap Iorwerth	AM for Anglesey
Mike Dodds	Wylfa Retirees Association
Cllr Julia Dobson	Llanbadrig Community Council

2. Approve the Minutes of the Meeting held on 10 September 2015

Jac Jones noted that his name had been omitted from the attendance list. With that amendment, the minutes were approved as a true and correct record by Cllr W T Hughes and seconded by Cllr G W Roberts.

3. Matters arising

There were no matters arising from the minutes not covered by the agenda.

4. Site Director's Report

Stuart Law (SL) presented his report. He began his report by affirming that the final shutdown of Wylfa Nuclear Power Station was on 30 December 2015 after almost 45 years of successful and safe operations. He described the shutdown as a heart wrenching event with the reactor building now cold and quiet. A video was shown to mark the conclusion of Magnox generation in the UK and to celebrate the various activities in Wylfa over the last 60 years.

The next stage for Wylfa is now a 100 days outage leading into a defueling stage. The valuable skills grown and developed at Wylfa and Magnox will contribute to the next chapter of operation. He emphasised the differences and changes to job roles. In the past success was measured by safe and compliant generation in TWHrs, but now it will be the number of flasks out through the gate in a safe and compliant manner.

SL went on to explain that the hazards had also changed at the station. During generation, if a fault developed, they would have only ½ -1hour emergency response time. SL had asked for new calculations to find out how long would they have if all cooling was lost. Today, that figure was 24hrs and within 100 days it would be a week.

The ONR Inspector for the site is not available to attend today but three issues were reported to the ONR in the last period of operation. The first arose from maintenance work on relays carried out by an individual. An alarm was received on the Reactor 1 desk and following an investigation it was found that the incorrect relays had been removed. The second issue was when the bridge was replaced between the Pile Cap and the Secondary Dry Store Cells. The work was completed without any problems. However, it was subsequently discovered that the work had not been done to written procedures and it wasn't controlled at all. There was no work control card issued for the task and no risk assessment had been carried out. Following these two events and the receipt of letters from ONR, the site has agreed to review nuclear safety documentation. This is an opportune moment to undertake such an exercise for the defueling phase and a maintenance standard improvement plan has been presented We are still in an operational phase during the 100 day outage and will need ONR permission to go into a defueling phase.

It was also discovered during routine maintenance that a fan supplying air to the Reactor Building was flowing in reverse. This meant that air was being extracted from contamination controlled areas. Following an initial survey no significant contamination was found, however

there were trace amounts of Co-60 which has resulted in a warning letter from Natural Resources Wales. There was no issue/harm to the public.

Going into the transition phase, currently there are495 Magnox and Agency staff on site supported by approximately 150 long term contractors. As of May 2016, the Defueling structure will comprise initially of 377 Magnox personnel. The new structure has been agreed with Magnox Executive and negotiated with the Trade Unions. Letters have been sent to everyone within the Wylfa pool indicating whether they had a future role or not in the organisation. These letters were sent out two weeks ago. The decision will affect different people in different ways and there is an appeals process available. It must be stressed that very few people who want a job have not been offered one within the Magnox family.

SL also reminded the meeting that the site had a good track record of retraining and up-skilling staff and contractors, by highlighting the £4m "Shaping the Future" initiative. However, he mentioned that choosing to study is a personal choice and workers had to be mindful that there is currently real competition for jobs.

In conclusion, SL reiterated his thanks to everyone on-site for the closure experience. The defuelling process is due to be completed in September 2018 and then into an eight year Care and Maintenance phase. The final site clearance is planned for 2127.

Tom Conway (TC) asked about the station load on the grid. SL responded by saying that it's approximately 7 Megawatts. In response, Tom Conway asked whether the power station will be running gas turbines to provide electricity for the national grid. It was confirmed that the station does not use gas turbines to provide electricity to the grid.. In relation to this question, Jac Jones asked for more details on the 7 Megawatts consumption. He also asked whether the site was still dependent on grid connection for safe cooling of the Reactor. SL explained that this consumption provides for everything across the site - all the plant and activities and over 100 offices. SL confirmed that if grid connection was lost they had a back-up generator with 1 million litres of diesel. A grid disconnection during operation would have been a major concern as the power requirements would rapidly consume the oil and diesel. However, in its current state, there is much more time available.

Another question was asked by Roger Dobson about the number of workers that will be released. SL confirmed that there will be a reduction of around 120 jobs by April 2016 . He reiterated that despite the drop off in Wylfa staff, a number of workers will still be employed by Magnox as support staff drop off the Wylfa structure. Leading on from that, a question was asked by RD about the investment in training and whether outplacement support had been provided. SL responded that the affected individuals are currently going through the process and outplacement support training was being offered to the value of £1,500 from Penna outplacement service. Those who have received a letter confirming they don't have a job will be subject to a 12 week notice period.

SL added that despite the decline in numbers and activity there are new opportunities with Horizon. Horizon intends to increase activity significantly in 2018 as the defuelling process in the current Wylfa comes to an end. RD asked if there was an employment agreement in place between Horizon and Magnox SL explained that Magnox share information with Horizon but there was no agreement in place , RD went on to convey his worries about the increase in traffic on the A5025 that may arise during the end of defueling at Wylfa and the manning up by Horizon.

JJ asked how the 7mw load was being used – SL explained that the load was being used for everything from heating offices to cooling Reactor 2 but no forced cooling was taking place. During generation the station load from the national grid was 150mw.

AMJ thanked Stuart for showing the Magnox end of generation film and said that it was very fitting.

5. SSG Chairman's Report

Aled Morris Jones presented his report. He outlined the various events he had attended as Chair of the SSG. He mentioned that he had recently attended an NDA National Stakeholder conference in Manchester. The focus was on Sellafield site and the changes within the NDA. Tony Fountain (former Chief Executive of NDA) will become the new chair for Sellafield Ltd as part of new management arrangements which will see Sellafield Ltd become a wholly owned NDA subsidiary. This also provided a golden opportunity to thank the NDA for their work at Wylfa. He also noted that the NDA came out well from the Comprehensive Spending Review – so the socio-economic commitments will remain.

The Chair had also made numerous visits to the site to receive the latest updates and briefings on the end of generation activities and again congratulated the site on the successful closure programme.

There were no questions from members

6. Nuclear Decommissioning Authority Update

Deborah Ward gave the NDA update. She began by drawing attention to the fact that the NDA draft strategy and business plans have been published for consultation which had initially been delayed due to the Government Spending Reviews. The consultation will run until 15 February and she encouraged people to give their views. The next edition of the NDA magazine Insight will cover the end of Generation story at Wylfa

DW also confirmed the Chair's comments that the NDA emerged relatively unscathed from the Comprehensive Spending Review and that a very successful Stakeholder event was held on 13th and 14th January.

DW highlighted some developments within the NDA including the launch of a new blog service and that the website had been revamped and migrated to become part of .gov.uk. Again, she asked people for their views on these new developments. She also mentioned that Jon Phillips, Director of Communications and Stakeholder Relations, had announced his retirement - the recruitment process to fill this role will begin in March/April.

DW also noted that the last flask of fuel has been despatched from Oldbury for reprocessing at Sellafield. In response to this TC enquired further about high level waste asking what were they doing with it? It was confirmed that the waste would eventually end up in a Geological Disposal Facility. A screening exercise is running at the moment and this was discussed in the Stakeholder event in Manchester. An investigation involving 250 borehole sites had been undertaken to get a better understanding of what's underneath the ground so that suitable sites can be identified. TC commented that this drilling could in fact be a precursor for fracking. He went on to say that nothing has been done in relation to this waste issue since 1976.

In response DW told the meeting that 100 people are currently employed by Radioactive Waste Management (RWM) to undertake this work in Harwell, RWM is a subsidiary of the NDA paid for with taxpayers' money. The key issue now is to find a suitable GDF site. With the programme of new-builds there is a responsibility to prove to communities that we have a plan to deal with the radioactive waste. The Government are still pursuing a voluntary approach – inviting willing communities to participate.

TC requested that a representative from the Government and a representative from the Deep Depository should come to a future SSG meeting to give a presentation and answer questions.

DW said that the RWM team from the Department of Energy and Climate Change (DECC) was offering to visit SSG meetings to provide an update to members on the work being done towards GDF

Action RWM to provide an update to Wylfa SSG members at a future meeting

AMJ added that the Isle of Anglesey County Council was not supportive of a deep depository coming to Anglesey

7. Office for Nuclear Regulation Update

A report by the ONR was included in the meeting pack. Unfortunately no-one was available to attend this meeting from the ONR and apologies had been received. Any questions could be forwarded to the ONR for response.

8. Update from the SSG Waste Sub Group

The report was presented by Aled Williams – Waste Manager at Wylfa. Currently the site is working on post-operative clean out (POCO) a hazard reduction operation to remove acids and chemicals. In trying to manage this waste, efforts are being made to use up as much as possible. It is hoped that by the end of next week the site will be $C0_2$ free. Even though the site is not generating money for the NDA anymore we are selling significant amounts of oil as well as sending it for re-processing

It was noted that about 150 tonnes of waste was previously generated per quarter; however a significant increase is expected over the next quarter to 800 tonnes due to clearing of oil and chemical hazards.

Initially, the desiccant from the gas dryers were sent off site as ILW but this strategy has now changed to “wash and burn” the desiccant at an off-site location. We are currently going through this process which changes the materials from ILW to very low level waste and subsequently sent to landfill. There is some desiccant waste remaining on-site but this waste will be recovered during the 100 day outage period.

9. Socio Economic Update

Michelle Humphries gave the socio economic update report. Michelle confirmed that the socio economic plan is out for consultation. The consultation will close on 23 February. So far, they had received 12 responses and they were keen to hear from more people.

On 8 January, Jon Phillips attended an event in Bangor to celebrate a £7million investment in the North Wales Region. There was extensive media coverage, including coverage in the North Wales Chronicle and the Holyhead & Anglesey Mail.

As we near the end of the financial year, Michelle confirmed that 87 organisations had received £766,523 out of a budget of £894,744. The remaining £128k has been planned for spending. On a local level at Wylfa, 17 organisations have received £231,245 between them.

Since the last SSG, £10,000 has been awarded to two former Magnox employees to support setting-up a STEM education business called Scientriffic delivering workshops to primary schools in Anglesey. Also £300,000 has been awarded over 3 years to Menter Môn's Tidal Energy Project – Morlais which will generate 120MW of electrical power for the island.

Gareth Winston Roberts asked a question about the Socio Economic Draft Plan which details how much partnership working exists within this area. It was noted that Wylfa was classed as a medium priority area rather than a high priority area. He suggested that a letter should be sent to the NDA to make the case for high priority status. Here is an opportunity for the newly established 'Cyngor Cymmunedau Gogledd Môn' (North Anglesey Community Councils) which are the Parish Councils in the north of Anglesey to engage with the NDA to leave a lasting socio economic legacy (regardless of whether there will be a new-build or not). He emphasised that the NDA had a duty of care over these communities. He proposed that a letter be sent to the NDA calling for a meeting with Jonathan Jenkin, and David Vineall ,HR Director, who will be covering Jon Phillips' role until a replacement is in post.

The Chair thanked Michelle for the professional and efficient way she produced the reports and administered the grants.

AMJ confirmed that the SSG had responded collectively to the draft NDA strategy consultation.

10. Open Forum Question and Answer Session

A question was asked about the amount of fuel on site and whether this would classify it as a COMAH (Control of Major Accident & Hazards) site. SL replied that Wylfa has not and will not be a COMAH site. In the past there have been large volumes of hypochlorite (bleach) on site, but not to the levels stipulated by COMAH. The site is well outside the lower thresholds.

In bringing the meeting to a close, the Chair wished to thank a very important person associated with the SSG – Karin White. She has been responsible for making all the necessary arrangements to ensure the smooth running of the Wylfa SSG meetings for the last 7½ years, and also recently for Trawsfynydd SSG as well. She will be retiring from her role at the end of March so this will be her last SSG. The Chair presented her with a bouquet of flowers in recognition of the efficient and friendly manner she has undertaken her role with the SSG.

The meeting came to a close at 4.10pm. The next meeting of the Wylfa Site Stakeholder Group will be held on 19 May 2016 at 15:00hrs

Cofnodion Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa a gynhaliwyd
Ddydd Iau 4 Chwefror 2016 yn Ystafelloedd Eleth/Eilian

Yn bresennol:

Thomas Conway	Cymdeithas Ymddeolwyr Wylfa
Liz Davies	Rheolwr Cyflawni'r Rhaglen Ynys Ynni
Roger Dobson	Preswylydd
Cyngh J Dobson	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Cyngh J Griffith	Cyngor Môn – Ward Talybolion
Cyngh KP Hughes	Cyngor Môn – Ward Talybolion
Cyngh William T Hughes	Cyngor Môn – Ward Twrcelyn
Cyngh Elfed Jones	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Cyngh Aled M Jones	Cyngor Môn – Ward Twrcelyn (Cadeirydd)
Cyngh J H Jones	Cyngor Cymuned Mechell
Mr R A Jones	Undeb Amaethwyr Cymru
Mrs Jean Jones	Ysgol Syr Thomas Jones
Tom Jones	Cyngor Cymuned Cylch y Garn
Mr H Jordan	Ffederasiwn Busnesau Bach (Garej Glan Rhos)
Lowri Joyce	Rheolwr Cysylltiadau Rhanddeiliaid Rhanbarthol Hitachi
Stuart Law	Cyfarwyddwr y Safle Magnox Wylfa
Myrddin Owens	Cyngor Tref Amlwch
Tim Poole	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Cyngh G W Roberts	Cyngor Tref Amlwch (Is-Gadeirydd)
A Rowlands	Cyngor Môn
Aled Williams	Rheolwr Gwastraff
Deborah Ward	Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear
Karin White	Ysgrifennydd Grŵp Rhanddeiliaid Safle Magnox
Paul Wright	Cyfoeth Naturiol Cymru

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Yn benodol, croesawodd y Cynghorydd Myrddin Owens o Gyngor Tref Amlwch (sydd wedi cymryd lle'r Cyng Val Roberts), Deborah Ward (ADN), Paul Wright (Cyfoeth Naturiol Cymru), Liz Davies (Rheolwr Cyflenwi'r Rhaglen Ynys Ynni), Frances Taylor (swyddfa Rhun ap Iorwerth) a Lowri Joyce (estynnwyd llongyfarchiadau iddi ar ei phenodiad â Hitachi Europe Ltd).

Cafwyd ymddiheuriadau gan y canlynol am eu habsenoldeb:

Nick Blackburn	Swyddfa dros Reoli Niwclear
John Idris Jones	Magnox
Richard Foxhall	Horizon Nuclear Power

Helen a Robin Grove-White – Yn gweithio ar yr arddangosfa "Pŵer yn y Tir" sy'n agor yn y Drenewydd ddydd Sadwrn – bydd y rhan ar Hanes Wylfa i'w gweld yn yr Oriel yn Llangefni tan fis Gorffennaf 2016

Mel O Hara	Aelod o'r Is-grŵp Gwastraff

Gordon Warren	Aelod o'r Cyhoedd
Gwyn Hughes	Swyddog Cynllunio Rhag Argyfwng Cynghorau Gogledd Cymru
Rhun ap Iorwerth	AC Ynys Môn
Mike Dodds	Cymdeithas Gweithwyr wedi Ymddeol Wylfa
Cyng Julia Dobson	Cyngor Cymuned Llanbadrig

2. Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Medi 2015

Nododd Jac Jones fod ei enw wedi'i hepgor o restr y rhai oedd yn bresennol. Gyda'r diwygiad hwnnw, cafodd y cofnodion eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir gan y Cyng W T Hughes ac eiliwyd hynny gan y Cyng G W Roberts.

3. Materion yn codi

Nid oedd dim materion yn codi o'r cofnodion nad oedd wedi'u cynnwys yn yr agenda.

4. Adroddiad Cyfarwyddwr y Safle

Cyflwynodd Stuart Law (SL) ei adroddiad. Dechreuodd trwy gadarnhau mai dyddiad cau terfynol Gorsaf Pŵer Niwclear Wylfa oedd 30 Rhagfyr 2015, ar ôl bron i 45 mlynedd o weithredu llwyddiannus a diogel. Dywedodd fod cau'r orsaf yn ddigwyddiad torcalonnus gydag adeilad yr adweithydd yn awr yn oer a thawel. Dangoswyd fideo i nodi diwedd cynhyrchu trydan Magnox yn y DU ac i ddathlu'r gwahanol weithgarwch yn Wylfa yn ystod y 60 mlynedd diwethaf.

Y cam nesaf i Wylfa yn awr yw 100 diwrnod segur a fydd yn arwain at y cam gwagio'r tanwydd. Bydd y sgiliau gwerthfawr sydd wedi'u meithrin yn Wylfa a Magnox yn cyfrannu at bennod nesaf y gweithrediadau. Pwysleisiodd y gwahaniaethau a'r newidiadau mewn rolau swyddi. Yn y gorffennol roedd llwyddiant yn cael ei fesur trwy gynhyrchu diogel mewn TWh ac a oedd yn cydymffurfio â'r rheoliadau, ond bydd yn awr yn cael ei fesur yn ôl nifer y llestri sy'n mynd allan trwy'r giatiau mewn ffordd ddiogel ac sy'n cydymffurfio.

Aeth SL ymlaen i egluro bod y peryglon yn yr orsaf hefyd wedi newid. Yn ystod y cam cynhyrchu, os oedd nam yn cael ei ganfod, dim ond ½ -1 awr o amser ymateb mewn argyfwng oedd ar gael iddynt. Gofynnodd SL am gyfrifiadau newydd i ganfod faint o amser fyddai ganddynt pe byddai pob system oeri'n cael eu colli. Heddiw, roedd y ffigur hwnnw'n 24 awr ac o fewn 100 diwrnod byddai'n wythnosau.

Nid oedd Swyddog yr ONR ar gael i fod yn bresennol heddiw ond roedd yr ONR wedi'i hysbysu o dri digwyddiad yn ystod y cyfnod gweithredol olaf. Roedd y cyntaf yn deillio o waith cynnal a chadw ar drosglwyddwyr a oedd yn cael ei wneud gan unigolyn. Cafwyd rhybudd ar ddesg Adweithydd 1 ac yn dilyn ymchwiliad canfuwyd fod y trosglwyddwyr anghywir wedi cael eu tynnu. Digwyddodd yr ail ddigwyddiad pan gafodd y bont ei newid rhwng Cap y Peil a Chelloedd y Storfa Sych Eilaidd. Cafodd y gwaith ei gwblhau heb unrhyw broblemau. Fodd bynnag, canfuwyd yn ddiweddarach nad oedd y gwaith wedi'i wneud yn unol â'r gweithdrefnau ysgrifenedig a'i fod heb ei reoli o gwbl. Nid oedd cerdyn rheoli gwaith wedi'i gyhoeddi ar gyfer y dasg ac nid oedd asesiad risg wedi'i gynnal. Yn dilyn y ddau ddigwyddiad uchod ac ar ôl cael llythyrau gan yr ONR, cytunodd y safle i adolygu'r dogfennau diogelwch niwclear. Roedd hwn yn gyfle da i gynnal ymarferiad o'r fath ar gyfer y cam gwagio tanwydd ac mae cynllun gwella safonau cynnal a chadw wedi'i gyflwyno. Rydym yn dal yn y cyfnod gweithredol yn ystod y cyfnod segur o 100 diwrnod a bydd angen caniatâd yr ONR i symud ymlaen i'r cam gwagio tanwydd.

Darganfuwyd hefyd yn ystod gwaith cynnal a chadw arferol fod y ffan a oedd yn cyflenwi aer i Adeilad yr Adweithydd yn llifo i'r cyfeiriad croes i'r hyn y dylai. Roedd hyn yn golygu bod aer yn cael ei dynnu o fannau lle'r oedd halogiad yn cael ei reoli. Yn dilyn archwiliad dilynol ni chanfuwyd dim halogiad arwyddocaol; fodd bynnag, roedd mymryn o Co-60 sydd wedi arwain at lythyr rhybuddion gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Nid oedd dim pryder / niwed i'r cyhoedd.

Wrth symud i'r cam trosiannol, mae 495 o staff Magnox ac Asiantaeth ar y safle ar hyn o bryd sy'n cael eu cynorthwyo gan tua 150 o gontractwyr tymor hir. Ym mis Mai 2016, bydd y strwythur Gwagio Tanwydd yn cynnwys 377 o staff Magnox yn y lle cyntaf. Cytunwyd ar y strwythur newydd gyda Gweithrediaeth Magnox ac mae wedi bod yn destun negodi â'r Undebau Llafur. Mae llythyrau wedi'u hanfon at bawb sy'n rhan o gronfa staff Wylfa i'w hysbysu a fydd ganddynt rôl ai peidio gyda'r sefydliad yn y dyfodol. Anfonwyd y llythyrau hyn bythefnos yn ôl. Bydd y penderfyniad yn effeithio ar wahanol bobl mewn ffyrdd gwahanol ac mae proses apelio ar gael. Rhaid pwysleisio mai dim ond ychydig iawn o bobl a hoffai gael swydd sydd heb gael cynnig un o fewn teulu Magnox.

Atgoffwyd y cyfarfod gan SL fod gan y safle enw da am gadw ac uwchsgilio staff a chontractwyr, gan dynnu sylw at y cynllun £4m "Llunio'r Dyfodol". Fodd bynnag, dywedodd bod astudio'n ddewis personol ac y dylai gweithwyr sylweddoli bod cystadleuaeth wirioneddol am swyddi ar hyn o bryd.

I gloi, diolchodd SL unwaith eto i bawb ar y safle am y profiad wrth gau'r orsaf. Disgwylir y bydd y broses o wagio'r tanwydd yn cael ei chwblhau ym mis Medi 2018 ac wedyn bydd y cam Gofal a Chynnal wyth mlynedd yn cychwyn. Y gobaith yw y bydd y safle wedi'i glirio'n derfynol cyn diwedd 2127.

Holodd Tom Conway (TC) am faich yr orsaf ar y grid. Ymatebodd SL trwy ddweud ei fod oddeutu 7 Megawatt. Mewn ymateb, gofynnodd Tom Conway a fydd yr orsaf pŵer yn rhedeg tyrbinau nwy i gyflenwi trydan i'r grid cenedlaethol. Cadarnhawyd nad yw'r orsaf yn defnyddio tyrbinau nwy i gyflenwi trydan i'r grid. Yng nghyd-destun y cwestiwn hwn, gofynnodd Jac Jones am ragor i fanylion ar fater y 7 Megawat. Gofynnodd hefyd a oedd y safle'n ddibynnol o hyd ar gysylltiad â'r grid i oeri'r Adweithydd yn ddiogel. Eglurodd SL fod y trydan hwn a ddefnyddir yn ddigon ar gyfer popeth ar y safle – yr holl beiriannau a gweithgareddau a dros 100 o swyddi. Cadarnhaodd SL pe byddai cysylltiad â'r grid yn cael ei golli roedd ganddynt eneradur wrth gefn gyda 1 miliwn litr o ddisel. Byddai datgysylltu â'r grid yn ystod y cam gweithredu wedi bod yn achos pryder mawr gan y byddai'r gofynion pŵer wedi defnyddio'r olew a'r disel yn gyflym. Fodd bynnag, yn y cyflwr presennol, mae llawer mwy o amser ar gael.

Gofynnwyd cwestiwn arall gan Roger Dobson (RD) am nifer y gweithwyr a fydd yn cael eu rhyddhau. Cadarnhaodd SL y bydd gostyngiad o tua 120 o swyddi erbyn mis Ebrill 2016. Pwysleisiodd er y bydd gostyngiad yn nifer staff Wylfa, bydd nifer o weithwyr yn dal i gael eu cyflogi gan Magnox wrth i nifer y gweithwyr cymorth leihau yn Wylfa. Yn dilyn hynny, gofynnwyd cwestiwn gan RD am y buddsoddiad mewn hyfforddiant ac a oedd cymorth allanol i ddod o hyd i waith arall yn cael ei ddarparu. Dywedodd SL fod yr unigolion a effeithir yn mynd trwy'r broses a bod hyfforddiant o'r fath sy'n werth hyd at £1,500 yn cael ei gynnig gan wasanaeth Penna. Bydd y rhai sydd wedi cael llythyr yn cadarnhau nad oes ganddynt swydd yn cael 12 wythnos o rybudd.

Ychwanegodd SL er bod y niferoedd a'r gweithgarwch yn lleihau, fod cyfleoedd newydd yn codi gyda Horizon. Mae Horizon yn bwriadu cynyddu ei weithgarwch yn sylweddol yn 2018 wrth i'r broses o wagio tanwydd yn y Wylfa presennol ddod i ben. Gofynnodd RD a oedd cytundeb cyflogaeth ar waith rhwng Horizon a Magnox. Dywedodd SL fod Magnox yn rhannu gwybodaeth â Horizon ond nad oedd cytundeb rhyngddynt. Aeth RD yn ei flaen i

fynegi ei bryderon am y cynnydd mewn traffig ar ffordd yr A5025 a all ddigwydd yn ystod diwedd y broses gwagio tanwydd yn Wylfa a chynnydd yng ngweithgarwch Horizon.

Gofynnodd JJ sut yr oedd y llwyth 7MW yn cael ei ddefnyddio – eglurodd SL fod y llwyth yn cael ei ddefnyddio ar gyfer popeth o wresogi swyddfeydd i oeri Adweithydd 2 ond nad oedd dim oeri dan orfod yn digwydd. Yn ystod y cam cynhyrchu roedd llwyth yr orsaf o'r grid cenedlaethol yn 150MW.

Diolchodd AMJ i Stuart am ddangos ffilm ar ddiwedd cynhyrchu Magnox a dywedodd ei bod yn briodol iawn.

5. Adroddiad Cadeirydd y GRhS

Cyflwynodd Aled Morris Jones ei adroddiad. Disgrifiodd yr amrywiol ddigwyddiadau roedd wedi bod yn bresennol ynddynt fel Cadeirydd y GRhS. Dywedodd ei fod wedi mynychu cynhadledd Genedlaethol Rhanddeiliaid yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear ym Manceinion. Roedd pwyslais y gynhadledd ar safle Sellafield a'r newidiadau i'r ADN. Mae Tony Fountain (cyn Brif Weithredwr yr ADN) wedi cael ei benodi fel cadeirydd newydd Sellafield Ltd fel rhan o drefniadau rheoli newydd lle bydd Sellafield Ltd yn is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr yr ADN. Roedd hwn hefyd yn gyfle euraidd i ddiolch i'r ADN am ei waith yn Wylfa. Nododd hefyd fod yr ADN wedi gwneud yn dda yn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant – sy'n golygu y bydd ei ymrwymiadau economaidd gymdeithasol yn parhau.

Roedd y Cadeirydd hefyd wedi bod ar nifer o ymweliadau â'r safle i gael y newyddion diweddaraf a'i friffio ar weithgarwch diwedd cynhyrchu ac unwaith eto llongyfarchodd y safle ar y rhaglen lwyddiannus i gau'r orsaf.

Ni chafwyd dim cwestiynau gan yr aelodau

6. Diweddariad gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear

Cafwyd diweddariad yr ADN gan Deborah Ward. Dechreuodd trwy dynnu sylw at y ffaith bod strategaeth a chynlluniau busnes drafft yr ADN wedi cael eu cyhoeddi fel dogfennau ymgynghori a bod oedi wedi bod o ganlyniad i Adolygiadau o Wariant y Llywodraeth. Bydd yr ymgynghoriad yn agored tan 15 Chwefror ac anogwyd pobl i rannu eu barn. Bydd rhifyn nesaf o gylchgrawn yr ADN Insight yn rhoi sylw i ddiwedd cynhyrchu yn Wylfa.

Cadarnhaodd DW hefyd sylwadau'r Cadeirydd fod yr ADN wedi goroesi'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn gymharol ddianaf a bod digwyddiad Rhanddeiliaid llwyddiannus iawn wedi'i gynnal ar 13 a 14 Ionawr.

Tynnodd DW sylw at rai datblygiadau sy'n digwydd o fewn yr ADN gan gynnwys lansio gwasanaeth blog newydd a bod y wefan wedi cael ei hailwampio i fod yn rhan o .gov.uk. Unwaith eto, gofynnodd am sylwadau pobl ar y datblygiadau newydd hyn. Dywedodd hefyd fod Jo Phillips, y Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chysylltiadau â Rhanddeiliaid, wedi cyhoeddi ei fod am ymddeol. Bydd y broses recriwtio i lenwi ei swydd yn cychwyn ym mis Mawrth/Ebrill.

Dywedodd DW hefyd fod y llestr olaf o danwydd wedi cael ei anfon o Oldbury i gael ei ailbrosesu yn Sellafield. Mewn ymateb i hyn, holodd TC ymhellach am wastraff lefel uchel gan ofyn beth oedd yn digwydd iddo. Cadarnhawyd y byddai'r gwastraff yn y diwedd yn diweddu mewn Cyfleuster Gwaredu Daearegol. Mae ymarferiad sgrinio'n cael ei gynnal ar hyn o bryd ac roedd hwn yn destun trafod yn y digwyddiad Rhanddeiliaid ym Manceinion. Roedd archwiliad yn cynnwys 250 o dyllau turio wedi'i gynnal i gael gwell dealltwriaeth o beth sydd o dan y ddaear fel y gellir dod o hyd i safleoedd addas. Dywedodd TC y gallai'r

tyllu hwn mewn gwirionedd fod yn rhagflaenydd i ffracio. Aeth ymlaen i ddweud nad oedd dim wedi'i wneud ynghylch y gwastraff hwn er 1976.

Mewn ymateb dywedodd DW wrth y cyfarfod fod 100 o bobl yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd gan Radioactive Waste Management (RWM) i wneud y gwaith hwn yn Harwell. Mae RWM yn is-gwmni ADN sy'n cael ei ariannu ag arian y trethdalwr. Y peth pwysig yn awr yw dod o hyd i safle GDF addas. Gyda'r rhaglen adeiladu gorsafoedd newydd mae cyfrifoldeb i brofi i gymunedau bod gennym gynllun i ddelio â gwastraff ymbelydrol. Mae'r Llywodraeth yn dal i ddilyn trywydd gwirfoddol wrth ddelio â'r mater – gwahodd cymunedau parod i gymryd rhan.

Gofynnodd TC a allai cynrychiolydd o'r Llywodraeth a chynrychiolydd o'r Storfa Ddwfn ddod i gyfarfod o'r GRhS yn y dyfodol i roi cyflwyniad ac i ateb cwestiynau.
Dywedodd DW fod y tîm RWM o'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) yn cynnig ymweld â chyfarfodydd GRhS i ddiweddaru'r aelodau ar y gwaith sy'n cael ei wneud tuag at GDF

Cam Gweithredu: RWM i ddiweddaru aelodau GRhS Wylfa mewn cyfarfod yn y dyfodol

Ychwanegodd AMJ nad oedd Cyngor Sir Ynys Môn yn cefnogi storfa ddofn ar gyfer Ynys Môn.

7. Diweddariad gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR)

Roedd adroddiad gan yr ONR wedi'i gynnwys ym mhecyn y cyfarfod ond yn anffodus nid oedd neb o'r ONR ar gael i fod yn bresennol yn y cyfarfod hwn, ac roeddent wedi anfon ymddiheuriadau. Gellid anfon unrhyw gwestiynau ymlaen i'r ONR i gael ymateb.

8. Diweddariad gan Is-grŵp Gwastraff y GRhS

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Aled Williams – Rheolwr Gwastraff yn Wylfa. Ar hyn o bryd mae'r safle'n gwneud gwaith glanhau ôl-weithredol (POCO) – proses lleihau peryglon, i gael gwared ar asidau a chemegau. Er mwyn ceisio rheoli'r gwastraff hwn, mae ymdrechion yn cael eu gwneud i ddefnyddio cymaint ohono â phosib. Y gobaith yw y bydd y safle'n rhydd o $C0_2$ erbyn diwedd yr wythnos nesaf. Er nad yw'r safle'n cynhyrchu arian i'r ADN erbyn hyn rydym yn gwerthu maint sylweddol o olew yn ogystal â'i anfon i gael ei ailbrosesu.

Nodwyd fod tua 150 tunnell o wastraff y chwarter yn arfer cael ei gynhyrchu; fodd bynnag, disgwylir cynnydd sylweddol yn ystod y chwarter nesaf i 800 tunnell yn sgil clirio olew a pheryglon cemegau.

Ar y dechrau, roedd y deunydd sychu o'r sychwyr nwy i gael ei symud o'r safle fel gwastraff lefel ganolraddol ond erbyn hyn mae'r strategaeth wedi newid i "olchi a llosgi'r sychwr" mewn man oddi ar y safle. Rydym yn mynd trwy'r broses hon ar hyn o bryd sy'n newid y deunyddiau o wastraff lefel ganolraddol i wastraff lefel isel iawn ac a fydd wedyn yn cael ei anfon i safle tirlenwi. Mae rhywfaint o wastraff y sychwr ar y safle o hyd ond bydd y gwastraff hwn yn cael ei gasglu yn ystod y 100 diwrnod segur.

9. Y Newyddion Economaidd Gymdeithasol Diweddaraf

Cafwyd adroddiad gan Michelle Humphries ar y newyddion economaidd gymdeithasol diweddaraf. Cadarnhaodd Michelle fod y cynllun economaidd gymdeithasol bellach yn

destun ymgynghori. Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 23 Chwefror. Hyd yma, maent wedi cael 12 o ymatebion a byddent yn hoffi clywed gan ragor o bobl.

Ar 8 Ionawr, roedd John Phillips yn bresennol mewn digwyddiad ym Mangor i ddathlu buddsoddiad o £7miliwn yn Rhanbarth Gogledd Cymru. Cafwyd llawer o sylw yn y cyfryngau, gan gynnwys sylw yn y North Wales Chronicle ac yn yr Holyhead & Anglesey Mail.

Wrth i ni ddynesu at ddiwedd y flwyddyn ariannol, cadarnhaodd Michelle fod 87 o fudiadau wedi cael £766,523 allan o gyllideb o £894,744. Mae cynlluniau ar waith i wario'r £128k sy'n weddill. Ar lefel leol, yn Wylfa, mae 17 o fudiadau wedi cael £231,245 rhyngddynt.

Ers cyfarfod diwethaf y GRhS, mae £10,000 wedi'i ddyfarnu i ddau o gyn gyflogeion Magnox i'w helpu i sefydlu eu busnes addysg STEM o'r enw Scientriffic a fydd yn cyflwyno gweithdai i ysgolion cynradd yn Ynys Môn. Hefyd, mae £300,000 wedi'i ddyfarnu dros dair blynedd i gynllun Ynni Llanw Menter Môn – Morlais, a fydd yn cynhyrchu 120MW o drydan ar gyfer yr ynys.

Gofynnodd Gareth Winston Roberts gwestiwn am y Cynllun Economaidd Gymdeithasol Drafft sy'n dangos faint o weithio mewn partneriaeth sy'n digwydd yn yr ardal. Nododd fod Wylfa wedi'i gategoreiddio fel ardal flaenoriaeth ganolraddol yn hytrach nag ardal flaenoriaeth uchel, Awgrymodd y dylid anfon llythyr at yr ADN yn dadlau'r achos dros statws blaenoriaeth uchel. Dyma gyfle i 'Cyngor Cymunedau Gogledd Môn', sef cynghorau plwyf gogledd Môn, sydd newydd ei sefydlu i ymgysylltu â'r ADN i adael gwaddol economaidd gymdeithasol barhaol (os bydd gorsaf newydd yn cael ei hadeiladu ai peidio). Pwysleisiodd fod gan yr ADN ddyletswydd gofal tuag at y cymunedau hyn. Cynigiodd fod llythyr yn cael ei anfon at yr ADN yn galw am gyfarfod â Jonathan Jenkin, a David Vineall, (Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol), a fydd yn gyfrifol am rôl John Phillips nes penodir rhywun i lenwi'r swydd.

Diolchodd y Cadeirydd i Michelle am ei ffordd broffesiynol ac effeithlon o gynhyrchu'r adroddiadau a gweinyddu'r grantiau.

Cadarnhaodd AMJ fod y GRhS wedi ymateb ar y cyd i'r ymgynghoriad ar strategaeth ddrafft yr ADN.

10. Sesiwn Holi ac Ateb Fforwm Agored

Gofynnwyd cwestiwn am faint o danwydd sydd ar y safle ac a fyddai hyn yn golygu ei fod yn cael ei gyfrif fel safle COMAH (Rheoli Peryglon a Damweiniau Mawr). Dywedodd SL na fu ac ni fydd Wylfa yn safle COMAH. Yn y gorffennol roedd lefelau uchel o hypoclorit (cannydd) ar y safle, ond nid lefelau mor uchel â'r rhai a bennir gan COMAH. Mae'r safle y tu allan i'r trothwyon isaf.

Wrth gloi'r cyfarfod, diolchodd y Cadeirydd i unigolyn pwysig iawn a oedd yn gysylltiedig â'r GRhS – Karin White. Roedd hi wedi bod yn gyfrifol am wneud yr holl drefniadau angenrheidiol i sicrhau bod cyfarfodydd GRhS Wylfa wedi rhedeg yn esmwyth am y 7½ mlynedd diwethaf, ac yn ddiweddar, roedd yn gyfrifol am y cyfarfodydd yn Nhrawsfynydd hefyd. Bydd yn ymddeol o'i swydd ddiwedd mis Mawrth felly hwn fydd ei GRhS olaf. Cyflwynodd y Cadeirydd dusw o flodau iddi i gydnabod y ffordd effeithlon a chyfeillgar a ddangoswyd ganddi wrth ymgymryd â'i rôl gyda'r GRhS.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.10pm. Cynhelir cyfarfod nesaf Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa ar 19 Mai 2016 am 15:00 o'r gloch.